

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 5 Medi 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple    Y Cyngorydd J Bonetto  
Y Cyngorydd P Jarman    Y Cyngorydd D Grehan  
Y Cyngorydd G Hughes    Y Cyngorydd J Williams  
Y Cyngorydd S Powell    Y Cyngorydd W Owen  
Y Cyngorydd R Yeo

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd R Bevan

Y Cyngorydd S.Evans

**76 YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams.

**77 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**78 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**79 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**80 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 yn rhai cywir.

**81 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**82 CAIS: 19/0501**

**Cynllun amlinellol (pob mater wedi'i gadw) ar gyfer eiddo sengl. (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig a Datganiad Dylunio a Mynediad 09/08/19), 1 Tylacoch, Llanhari, Pont-y-clun.**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, er mwyn ystyried lleoliad y datblygiad arfaethedig a'i effaith bosibl ar ddiogelwch ar y ffordd.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol er mwyn annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma y byddai rhaid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffon nhw wneud hynny.

**83 CAIS: 19/0670**

**Adeiladu cofeb, tir yn Heol y Parc, Cwm-parc, Treorci.**

(Note: Ar yr adeg yma, cafodd y datganiadau o fuddiannau personol canlynol eu gwneud mewn perthynas â'r cais uchod:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams – "Mae'r ymgeisydd yn hysbys i mi"; a
- Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – "Mae aelodau o'm teulu yn aelodau o grŵp cymuned Prosiect Coffa'r Blitz Cwm-parc, ond rwy'n cadw'r hawl i siarad am y cais yn rhinwedd fy rôl fel Aelod Lleol yr ardal."

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Robert Leighton Davies (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sera Evans, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth i'r datblygiad

arfaethedig.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**84 CAIS: 19/0425**

**Newid defnydd rhan o garej i fusnes twtio cŵn. (Derbyniwyd cynllun parcio ychwanegol 05/07/19), 64 Ffordd-y-Dolau, Llanharan, Pont-y-clun.**

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**85 CAIS: 19/0735**

**Estyniad a gwelliannau i'r maes parcio gorlif presennol yng nghefn y safle. Canolfan Hamdden Rhondda Fach, East Street, Tylorstown, Glynrhedynog.**

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**86 CAIS: 19/0599**

**Gosod systemau coginio yn y siop gyffredinol bresennol ar gyfer paratoi a gwerthu cynhyrchion pizza poeth (newid defnydd rhan o'r uned o A1 i A3) Uned 1 Canolfan Siopa, Cardigan Close, Ton-teg, Pontypridd.**

Dywedodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu wrth Aelodau nad oedd yr adran 'Cyhoeddusrwydd' wedi'i chynnwys yn yr adroddiad trwy gamgymeriad ond bod copi gerbron yr Aelodau i'w ystyried.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r adroddiad, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau wrthod y cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**87 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 05.08.2019 - 22.08.2019 2019.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm**

**Y Cynghorydd S Rees  
Cadeirydd.**